# Cronfa Ryngwladol Y Pedair Cenedl

## Canllawiau i Ymgeiswyr

Awst 2023

Creative Scotland / Alba | Chruthachail
Arts Council England
Arts Council of Northern Ireland
Cyngor Celfyddydau Cymru / Arts Council of Wales
wales arts international / celfyddydau rhyngwladol cymru

## Gwybodaeth am y gronfa

Mae COVID-19, ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, ac argyfwng costau byw ill dau wedi cyflwyno heriau i weithio rhyngwladol. Mae artistiaid o bob rhan o'r DU yn dal i geisio cydweithio â'u cymheiriaid o amgylch y byd, a bu eisoes enghreifftiau trawiadol o gysylltu a chyfnewid digidol yn ogystal â dulliau newydd o weithio gyda'n gilydd yn bersonol, wrth i ni ystyried ein heffaith hinsawdd fwyfwy.

**Mae'r ail rownd hon o Gronfa Ryngwladol y Pedair Gwlad wedi'i chynllunio i annog cydweithio personol, digidol a hybrid:**

- rhwng artistiaid, ymarferwyr creadigol, a sefydliadau yn y pedair cenedl drwy'r DU

**a**

- chymheiriaid o wledydd eraill yn Ewrop a'r tu hwnt.

Mae sectorau celfyddydol a diwylliannol pedair cenedl y DU yn ffynnu ar gydweithio a chyfnewid rhyngwladol. Mae'r gronfa hon yn gwahodd artistiaid, gweithwyr diwylliannol proffesiynol a sefydliadau i ystyried sut y gellid gwella'r cydweithio hwnnw drwy weithio agosach rhwng Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Cronfa beilot yw Cronfa Ryngwladol y Pedair Cenedl, gyda chydfuddsoddiad gan Arts Council England, Arts Council Northern Ireland, Cyngor Celfyddydau Cymru/ Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a Creative Scotland.

Y gyllideb ar gyfer y rownd beilot gychwynnol hon yw £320,000, ac rydyn ni'n rhagweld y byddwn ni'n rhoi 40 -50 o grantiau i gyd ar draws Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Creative Scotland sy'n arwain ac yn gweinyddu'r gronfa hon ar ran cynghorau celfyddydau'r pedair cenedl. Gan hynny, Cyfraith yr Alban fydd yr awdurdodaeth ar gyfer y gronfa hon, a bydd prosesau a gweithdrefnau safonol Creative Scotland yn berthnasol.

Bydd cynghorau celfyddydau'r pedair cenedl yn cydweithio wrth wneud penderfyniadau am y gronfa. Croesewir ceisiadau o bob un o bedair cenedl y DU. Bydd y penderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail meini prawf y gronfa (sydd i'w gweld yn yr adran 'Gwneud penderfyniadau' yn y Canllawiau), a'r nod fydd cynrychioli diwylliannau a daearyddiaeth amrywiol y pedair cenedl.

## Amcanion y rhaglen

- **Cefnogi cyfleoedd datblygu rhyngwladol** i ymarferwyr diwylliannol unigol a/neu sefydliadau sydd wedi'u lleoli yn y DU
- **Meithrin mwy o gydweithio** rhwng ymarferwyr a/neu sefydliadau diwylliannol yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, a phartneriaid yn Ewrop a'r tu hwnt
- **Edrych ar fodelau newydd ac ymarfer arloesol** wrth gydweithio yn rhyngwladol, ac yn fwy na dim, profi ffyrdd llawn dychymyg o weithio a fydd yn arwain at ymatebion newydd a chadarnhaol i faterion sy'n ymwneud â chynhwysiant, cydweithio teg, a chyfrifoldeb at yr hinsawdd. Rydyn ni'n croesawu ceisiadau ar gyfer prosiectau sy'n lleihau effeithiau amgylcheddol negyddol ac yn hyrwyddo rhai cadarnhaol. Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau am brosiectau sy'n ceisio gweithio gydag ymarferwyr diwylliannol sydd â phrofiad o ddadleoli a/neu brofiad o feysydd o wrthdaro neu ar ôl gwrthdaro.

## Faint o arian sydd ar gael?

Cyfanswm y gyllideb ar gyfer y rownd beilot yw £320,000. **Gall ymgeiswyr wneud cais am rhwng £1,000 a £7,500, ynghyd ag am gostau hygyrchedd yn ychwanegol at hyn.** Nid oes gofyn cael cyllid cyfatebol yn y rownd beilot hon.  Mae'r trothwy hwn wedi'i gynyddu o £5,000 yn y rownd flaenorol i adlewyrchu costau cynyddol gweithio rhyngwladol a galluogi ymgeiswyr i dalu artistiaid ac ymarferwyr creadigol sy'n ymwneud â'r prosiect (gan gynnwys y rhai sy'n ei reoli) yn deg.

Nid oes angen arian cyfatebol, fodd bynnag, os ydych yn cynnwys arian cyfatebol wedi'i gadarnhau gan bartneriaid fel rhan o'r cais, dylech sicrhau bod hyn wedi'i gadarnhau'n ysgrifenedig.

**Rydyn ni'n rhagweld y byddwn ni'n rhoi 40-50 o grantiau** yn y rownd beilot hon, a byddwn ni'n ceisio rhoi sylw i amrywiaeth ddaearyddol a diwylliannol y pedair cenedl, ynghyd ag amrywiaeth o ran ffurfiau celfyddydol.

## Pwy sy'n gallu ymgeisio?

**Er mwyn bod yn gymwys:**

- Rhaid i'r ymgeisydd fod yn 18 oed neu'n hy^n
- Rhaid i'r ymgeisydd fod wedi'i leoli yn un o bedair cenedl y DU – Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban
- Rhaid i'r ymgeisydd fod yn ymarferydd creadigol sy'n gweithio yn y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol, neu'n sefydliad sy'n gweithio yn y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol
- Rhaid i'r ymgeisydd fod â chyfrif banc yn y DU yn ei enw ei hun

**Rhaid i'r ymgeisydd gael y canlynol hefyd:**

- Ymrwymiad wedi'i gadarnhau gan o leiaf un partner artistig neu greadigol sydd wedi'i leoli yn un o'r pedair cenedl arall – Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban (gall y partner fod yn unigolyn neu'n sefydliad)
- Ymrwymiad wedi'i gadarnhau gan bartner artistig neu greadigol rhyngwladol (gall y partner fod yn unigolyn neu'n sefydliad). Bydd y gronfa hefyd yn blaenoriaethu partneriaethau rhyngwladol o fewn Ewrop.

Dim ond un partner arweiniol o unrhyw un o bedair gwlad y DU sy'n gallu gwneud cais ar ran pob partneriaeth. Ni fydd ceisiadau lluosog gan wahanol bartneriaid ar gyfer yr un gweithgaredd yn gymwys. Dim ond un cynnig y caiff pob ymgeisydd ei gyflwyno fel partner arweiniol yn y rownd beilot hon. Bydd y partner arweiniol yn gyfrifol am faterion ariannol ac am adrodd.

Bydd y gronfa beilot hon yn blaenoriaethu cefnogaeth i'r unigolion a'r sefydliadau hynny nad oes ganddyn nhw statws ariannu rheolaidd drwy unrhyw un o'r cynlluniau ariannu canlynol gan y cynghorau celfyddydau: *'National Portfolio Organisations' Arts Council England; 'Annual Funding Programme' Arts Council Northern Ireland; Portffolio Celfyddydol Cymru Cyngor Celfyddydau Cymru;* a *'Regularly Funded Organisations' Creative Scotland*. Nid yw hyn yn eithrio ceisiadau gan bartneriaethau sy'n cynnwys sefydliad a ariennir yn rheolaidd; fodd bynnag, disgwyliwn weld y gwerth ychwanegol y gall sefydliad a ariennir yn rheolaidd ei roi i'r bartneriaeth.

## Pa ffurfiau celfyddydol fydd yn cael eu hystyried?

Mae modd inni ystyried cynigion gan ymarferwyr creadigol a sefydliadau sy'n gweithio mewn amrywiaeth o ffurfiau celfyddydol, gan gynnwys:

- Celfyddydau amlddisgyblaethol
- Llenyddiaeth
- Cerddoriaeth
- Theatr
- Dawns
- Celfyddydau Gweledol
- Crefft
- Dysgu creadigol / Plant a phobl ifanc

Sylwch nad yw'r rhestr hon yn gyflawn. Os bydd gennych chi gwestiynau ynghylch cymhwyster eich cais, cysylltwch â ni (gweler **Tudalen 13**).

## Ar gyfer beth y gellir defnyddio'r arian?

Gall y ceisiadau fod ar gyfer gweithgareddau wyneb yn wyneb, gweithgareddau digidol, neu weithgareddau sy'n cyfuno'r ddau ddull, a hynny yn y categorïau canlynol:

- Cyfnewidfeydd
- Cyfnodau preswyl
- Datblygu partneriaethau
- Cyd-greu
- Rhwydweithio

**Rhoddir blaenoriaeth i geisiadau sy'n arbrofi â modelau arloesol ar gyfer cydweithio yn rhyngwladol.**

Gellir defnyddio'r gronfa ar gyfer un o'r canlynol, neu'r cyfan ohonyn nhw:

- Datblygu arferion artistig drwy weithio ar draws y DU ac yn rhyngwladol
- Cydweithio ag artistiaid, ymarferwyr creadigol a sefydliadau ar draws y DU ac yn rhyngwladol, a dysgu ganddyn nhw
- Datblygu perthnasau cynnar ag artistiaid, ymarferwyr creadigol a sefydliadau gyda'r nod mwy hirdymor o ddatblygu marchnadoedd a chynulleidfaoedd ar draws y DU ac yn rhyngwladol ar gyfer y gwaith, ynghyd â datblygu proffil rhyngwladol
- Cyfnewid pobl greadigol allweddol i ddatblygu cysyniadau neu berthnasau newydd

Bydd angen i ymgeiswyr allu dangos ymrwymiad i'r gweithgaredd arfaethedig gan y partneriaid eraill sy'n rhan o'r cynnig – o leiaf un partner o wlad arall yn y pedair cenedl ac o leiaf un partner rhyngwladol. Bydd e-bost neu lythyr gan y partner yn ddigonol. Nid yw arian cyfatebol yn ofynnol, ond os soniwch am gronfeydd eraill sydd wedi'u cadarnhau, disgwyliwn i'r cronfeydd hyn gael eu tystiolaethu drwy lythyrau ategol.

## Y gweithgareddau na chaiff fod yn rhan o'r cais

- Prosiectau nad ydyn nhw'n ymwneud â'r celfyddydau
- Parhau â phrosiect sy'n bodoli'n barod heb fod iddo unrhyw elfennau newydd amlwg
- Cynhyrchu ffilmiau neu fideos ac arddangosfeydd sinema, oni bai bod hynny'n cefnogi gwaith artistiaid yn y llun symudol (gan gynnwys ffilm a fideo)
- Prosiectau sy'n ymwneud â chwrs astudio neu ffioedd dysgu mewn ysgol, coleg neu brifysgol
- Cymwysterau achrededig
- Prosiectau sydd i'w cynnal neu sy'n dechrau cyn dyddiad cyhoeddu'r penderfyniadau ariannu
- Digwyddiadau codi arian, fel galâu elusennol
- Prynu cyfarpar ac offerynnau
- Prosiect mewn lleoliad addysg ffurfiol at ddibenion addysgol sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith
- Prosiectau sy'n cefnogi celfyddydau cyffredinol neu weithgareddau creadigol mewn ysgolion
- Prosiectau sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu cymdeithasol (ni fyddwn yn ystyried y cynnig yn gymwys oni bai ei bod yn amlwg bod pwyslais artistig neu greadigol i'r prosiect yn bennaf)

## Costau na allwch chi eu cynnwys

- Costau/gweithgareddau y mae arian arall eisoes yn talu amdanyn nhw
- Costau cynnal a gorbenion cyffredinol sy'n cael eu talu drwy incwm arall, gan gynnwys eich cyllid eich hun
- Gorbenion parhaus sy'n gysylltiedig â chyfarpar neu adeiladu, fel costau yswiriant a chostau cynnal a chadw

## Nodyn am waith teg

Mae disgwyl i'r holl ymgeiswyr sy'n gwneud cais am arian roi tâl teg i'w hunain ac i bobl eraill sy'n rhan o'r prosiect. Rydyn ni'n disgwyl i'r rheini sy'n chwilio am arian fod yn glir ynghylch yr holl gostau y maen nhw'n eu dyrannu yn eu cyllidebau sy'n gysylltiedig â thalu'r bobl sy'n cyflawni'r gwaith. Dydyn ni ddim yn rhagnodi'r cyfraddau tâl sydd i'w dilyn wrth gyflogi artistiaid ac ymarferwyr creadigol, ac wrth weithio gyda nhw a/neu eu comisiynu, ond gallwch chi ddarllen **dogfen Creative Scotland am Gyfraddau Tâl.** Mae'r ddogfen hon yn rhoi ffynonellau gwybodaeth am safonau'r diwydiant, cyfraddau'r undebau, a chodau ymarfer cyrff amlwg. Yn eu cyllidebau, rydyn ni'n disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio'n glir at dâl sy'n addas i'r diwydiant pan fydd hynny'n berthnasol ac yn briodol.

## Pryd mae modd gwneud cais?

Y gronfa'n agor ........................................... **Dydd Mercher 16 Awst 2023**
Dyddiad cau .................................................... **Dydd Iau 28 Medi 2023**
Penderfyniadau ........................................... **yr wythnos sy'n dechrau ar 6 Tachwedd 2023**
Y prosiectau'n dechrau ............................ **rhwng 1 Ionawr 2024 a 31 Mawrth 2024**
Y prosiectau'n cael eu cwblhau ............. **erbyn 31 Mawrth 2025**

## Sut fydd y ceisiadau'n cael eu hasesu?

Yn gyntaf, bydd angen gwirio'ch cais i sicrhau eich bod yn gymwys – gallwch ofalu eich bod chi, ynghyd â syniad, gweithgareddau a phartneriaid eich prosiect yn gymwys drwy ddarllen y canllawiau a'r Cwestiynau Cyffredin. Ni fydd unrhyw geisiadau nad ydyn nhw'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd sylfaenol yn mynd ymhellach. Os bydd gennych chi gwestiynau ynghylch a ydych chi'n gymwys i wneud cais, cysylltwch â ni (gweler **Tuladen 13**)

Ar ôl gwirio bod y cais yn gymwys, bydd dau asesydd yn rhoi sgôr iddo. Byddan nhw'n sgorio'r cais yn unol â'r pedwar maen prawf canlynol:

**1. Arloesi / angen (Uchafswm 5 pwynt)**

- A yw'r cais yn dangos sut y mae hwn yn ddull newydd neu wahanol o gydweithio yn rhyngwladol?
- A yw'r cais yn ymateb i anghenion neu heriau penodol sydd gan y partneriaid neu'r sector ar hyn o bryd?
- A yw'r cais yn ceisio profi ffyrdd newydd o weithio sy'n ymateb i un neu ragor o'r materion canlynol: cynhwysiant, cydweithio teg, cyfrifoldeb at yr amgylchedd?

**2. Strwythur y prosiect (Uchafswm 5 pwynt)**

- A yw'r swm y gofynnir amdano a manylion y costau'n ymddangos yn rhesymol ar gyfer y gweithgareddau sydd i'w cynnal?
- A yw'r amserlen yn ymddangos yn ymarferol?
- A yw hi'n amlwg beth sydd i'w gynnal pa bryd, a gyda phwy?
- A yw hi'n ymddangos y bydd y gweithgareddau a ddisgrifir yn cael yr effaith neu'n arwain at y canlyniadau a ddymunir?

**3. Y bartneriaeth (Uchafswm 5 pwynt)**

- A oes rhesymeg yn sail i'r broses o ddewis partneriaid (eu sgiliau, eu hymarfer, eu profiad) ac a fydd natur y bartneriaeth yn helpu i gyflawni amcanion y prosiect?
- A yw'r bartneriaeth yn un ddwyochrog – a fydd y gweithgaredd o fudd i'r holl bartneriaid?
- A oes posibiliadau diddorol o ran sut y gallai'r berthynas rhwng y partneriaid hyn ddatblygu?

**4. Yr effaith bosibl (Uchafswm 5 pwynt)**

- A yw'r cynnig yn dangos effaith bosibl y gweithgaredd ar bob un o'r partneriaid? Gall hyn gynnwys ymarfer artistig, cyfleoedd i gydweithio yn y dyfodol, gwell proffil yn rhyngwladol neu yn y DU, neu gyrraedd marchnadoedd a chynulleidfaoedd newydd.
- A oes cynlluniau i rannu'r profiadau a'r gwersi a ddysgir gyda'r sector creadigol yn ehangach?

**Ar ôl eu hasesu,** bydd y ddau sgôr yn cael eu rhoi ynghyd, gydag uchafswm sgôr o 40. Os bydd sgôr un asesydd yn sylweddol wahanol i sgôr yr asesydd arall, bydd angen trafod i gytuno ar sgôr terfynol.

The applications will go to a panel of assessors from all partner arts councils, where the Bydd y ceisiadau'n mynd gerbron panel o aseswyr o bob un o'r cynghorau celfyddydau sy'n rhan o'r bartneriaeth, a bydd y panel yn edrych ar y ceisiadau sydd wedi cael y sgoriau uchaf. Bydd tua 20 - 30 o grantiau'n cael eu rhoi. Wrth wneud y penderfyniadau ar y dyfarniadau terfynol, bydd aelodau'r panel hefyd yn rhoi sylw i'r canlynol:

- Amrywiaeth ddiwylliannol
- Amrywiaeth y ffurfiau celfyddydol
- Amrywiaeth ddaearyddol
- Ymgeiswyr nad oes ganddyn nhw statws ariannu rheolaidd drwy unrhyw un o gynlluniau ariannu canlynol y cynghorau celfyddydau: *'National Portfolio Organisations' Arts Council England; 'Annual Funding Programme' Arts Council Northern Ireland; Portffolio Celfyddydol Cymru Cyngor Celfyddydau Cymru;* a *'Regularly Funded Organisations' Creative Scotland.*

**Rhoddir adborth byr os byddwch chi'n aflwyddiannus,** gan nodi a oeddech chi'n anghymwys, neu nodi feysydd gwannaf eich cais o dan y meini prawf. Mae'n werth nodi mai cronfa beilot yw hon ac felly rydyn ni'n gweithio gyda swm cymharol fychan o arian (£320,000). Mae'r gronfa ar agor i geisiadau o'r pedair cenedl, felly gall y broses fod yn un gystadleuol iawn.

**Os byddwch chi'n llwyddiannus,** byddwn ni'n cysylltu â chi i drefnu llofnodi cytundeb grant ac i gael manylion eich banc. Byddwn ni hefyd yn gofyn ichi ateb rhai cwestiynau am y prosiect 30 diwrnod ar ôl y dyddiad y daw'r gweithgaredd a ariennir i ben.

## Y broses ymgeisio

**Dogfennau ategol a gwybodaeth ychwanegol**

Er mwyn ei gwneud hi'n haws cadw golwg ar yr hyn sydd ei angen arnoch, mae'r canlynol yn rhestr o'r dogfennau y gofynnir i chi amdanynt fel rhan o'r ffurflen gais.

**Ar adeg cofrestru i wneud cais**

- **Hanfodol:** Tystiolaeth o Fath o Sefydliad/Cwmni/Elusen: Bydd gofyn i chi lanlwytho rhai dogfennau swyddogol i gadarnhau'r math o sefydliad ydych chi. Dylid ychwanegu'r rhain pan fyddwch yn cofrestru gyntaf a gellir eu diweddaru yn adran 'Eich Cyfrif' y porth ar-lein

**Fel rhan o'ch cais**

- **Hanfodol:** Gwybodaeth/CVs o ymarfer neu waith eich sefydliad
- **Hanfodol:** Gwybodaeth/CVs pob partner yn y DU a phob partner rhyngwladol dan syl
- **Hanfodol:** Dogfen ategol pob partner yn y DU a phob partner rhyngwladol dan sylw (HANFODOL): gall hwn fod yn lythyr neu'n e-bost gan eich partner yn nodi eu cefnogaeth i'r prosiect hwn.
- **Hanfodol:** Llinell amser y prosiect: Gallwch ddefnyddio'r templed dewisol hwn fel canllaw: Cronfa Ryngwladol y Pedair Gwlad | Yr Alban Greadigol
- Dogfennau Ategol Eraill: Gall ymgeiswyr lanlwytho hyd at 5 dogfen ategol arall i gefnogi eu cais.

## Ein porth ymgeisio ar-lein

Gwneir ceisiadau ar gyfer Cronfa Ryngwladol y Pedair Cenedl trwy borth ymgeisio ar-lein Creative Scotland. Sylwch, gan fod y broses ymgeisio'n cael ei rheoli drwy borth ar-lein Creative Scotland, bydd y gronfa hon (sy'n agored i ymgeiswyr o bedair cenedl y DU) yn eistedd wrth ymyl cynlluniau ariannu eraill sy'n agored i ymgeiswyr o'r Alban yn unig.

**https://my.creativescotland.com/**

Gwiriwch ein gwefan i sicrhau eich bod yn defnyddio'r fersiwn diweddaraf o'r canllawiau. Byddwn yn diweddaru'r canllaw hwn o bryd i'w gilydd a dylech sicrhau eich bod yn cyfeirio at y fersiwn ddiweddaraf sydd ar gael.

**Ydych chi wedi gwneud cais o'r blaen gan ddefnyddio ein porth ar-lein ac eisoes wedi cofrestru gyda ni?**

Os ydych, yna gallwch fewngofnodi i'r porth, cliciwch ar 'Cyllid' a dewis 'Cronfa Ryngwladol y Pedair Cenedl' o'r detholiad o raglenni ariannu sydd ar agor ar gyfer ceisiadau ar hyn o bryd.

**Ydych chi'n ymgeisydd newydd neu'n un sy'n cofrestru ar y porth ar-lein am y tro cyntaf?**

Os nad ydych wedi gwneud cais gan ddefnyddio ein porth ar-lein o'r blaen, a heb gofrestru cyfrif gyda ni eto, bydd angen i chi greu cyfrif ar gyfer eich sefydliad. Ewch i: **https://my.creativescotland.com/signup** a dilynwch y broses gofrestru syml.

Wrth gofrestru gofynnir i chi ddarparu rhai dogfennau swyddogol fel tystiolaeth o'ch math o gwmni. Gellir diweddaru'r rhain yn ystod y broses ymgeisio ond maent yn ofynion hanfodol a bydd eu hangen er mwyn gallu gwneud cais.

Unwaith y byddwch wedi cofrestru, byddwch yn derbyn e-bost dilysu i gadarnhau'r cyfrif, ac ar ôl hynny gallwch fewngofnodi a symud ymlaen fel yr amlinellir uchod. Wrth gwblhau eich cais, byddwch yn gallu gweithio ar ddrafft ar-lein, ei gadw wrth fynd ymlaen a dod yn ôl ato unrhyw bryd cyn ei gyflwyno.

**Angen cymorth wrth gwblhau'r ffurflen gais ar-lein?**

Os oes angen cymorth arnoch i gwblhau'r cais ar-lein oherwydd anabledd neu anghenion mynediad, byddwch yn gallu clicio ar fotwm 'Cymorth Mynediad' yn y porth ar-lein. Bydd clicio ar hwn yn hysbysu ein Tîm Ymholiadau o'ch gofynion a bydd aelod o staff yn cysylltu â chi. Yn y sefyllfa hon, arhoswch i ni gysylltu â chi. Byddwn yn gwneud hynny'n brydlon a byddwn yn sicrhau bod eich cais yn cael ei ystyried ac na fyddwch dan anfantais.

## Llenwi'r ffurflen gais ar-lein

Ceir isod grynodeb o'r ffurflen gais a'r cwestiynau y bydd angen ichi eu cwblhau ar y ffurflen arlein.

**Yr adran am eich gwaith:**

**I unigolion:**

- Sut fyddech chi'n disgrifio eich rôl neu'ch ymarfer yn y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol? ***(Tua 50 gair)***
- Gofynnir ichi wedyn ddewis sut yr hoffech chi roi rhagor o wybodaeth am eich ymarfer neu'ch gwaith: naill ai drwy uwchlwytho CV (fformat Word neu Pdf); llenwi blwch testun yn y ffurflen; neu ddarparu dolen i wefan.

**I sefydliadau:**

- Nodwch a ydych chi'n cael arian unrhyw un o'r cynlluniau ariannu rheolaidd hyn: *'National Portfolio Organisations' Arts Council England; 'Annual Funding Programme' Arts Council Northern Ireland; Portffolio Celfyddydol Cymru Cyngor Celfyddydau Cymru;* a *'Regularly Funded Organisations' Creative Scotland*
- Sut fyddech chi'n disgrifio rôl eich sefydliad yn y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol? ***(50 gair)***
- Gofynnir ichi wedyn ddewis sut yr hoffech chi roi rhagor o wybodaeth am waith neu brofiad eich sefydliad: naill ai drwy uwchlwytho crynodeb o waith eich sefydliad (fformat Word neu Pdf); llenwi blwch testun yn y ffurflen; neu ddarparu dolen i wefan.

# Eich partner(iaid) yn y 4 cenedl

**Rhowch wybodaeth am eich prif bartner(iaid)** yn y pedair cenedl i roi syniad o'u gwaith a/neu eu hymarfer, ac uwchlwythwch ddogfen ategol ar gyfer pob partner, a honno'n dangos eu hymrwymiad i'r prosiect.

**Dim ond un partner o genedl arall yn y DU sy'n angenrheidiol fan hyn,** ond gallwch chi gwblhau manylion partneriaid ychwanegol os yw hyn yn rhan o'ch prosiect, drwy glicio ar y botwm 'add partner' ar y gwaelod, faint bynnag o weithiau y bydd angen gwneud hynny.

**Ar gyfer pob partner yn y DU:**

- Ar gyfer pob partner yn y DU:
- Enw'r partner yn y DU
- Ydyn nhw'n unigolyn/unig fasnachwr ynteu'n sefydliad?
- Ym mha un o'r pedair cenedl maen nhw wedi'u lleoli?
- Beth yw eu cod post?
- **Hanfodol:** Uwchlwythwch ddogfen Word neu PDF sy'n rhoi trosolwg o waith a/neu brofiad blaenorol y partner
- **Hanfodol:** Uwchlwythwch ddogfen ategol yn dangos ymrwymiad y partner i'r prosiect (e-bost neu lythyr)

**Ar gyfer pob partner:**

- Enw eich partner rhyngwladol
- Ydyn nhw'n unigolyn/unig fasnachwr ynteu'n sefydliad?
- Ym mha wlad maen nhw wedi'u lleoli?
- Ym mha dref / dinas / rhanbarth?
- **Hanfodol:** Uwchlwythwch ddogfen Word neu PDF sy'n rhoi trosolwg o waith a/neu brofiad blaenorol y partner
- **Hanfodol:** Uwchlwythwch ddogfen ategol yn dangos ymrwymiad y partner i'r prosiect (e-bost neu lythyr)

## Eich prosiect - manylion sylfaenol

- Beth yw new/teitl eich prosiect neu weithgaredd?
- Dyddiad dechrau'r gweithgaredd
  **(Ddim cyn 1 Ionawr 2023 a ddim hwyrach na 31 Mawrth 2023)**
- Dyddiad gorffen y gweithgaredd
  **(Ddim hwyrach na 31 Mawrth 2025)**
- Prif ffurf gelfyddydol / maes
- Rhowch wybod inni pa ffurf gelfyddydol neu faes creadigol sy'n disgrifio'r prosiect / gweithgaredd hwn orau. Gallwch chi ddewis mwy nag un, os yw hyn yn cyfleu natur eich prosiect yn well.
- Ffurfiau celfyddydol eraill
- Os yw hynny'n berthnasol, pa ffurfiau celfyddydol neu feysydd creadigol eraill sy'n berthnasol i'ch prosiect?
- Rhowch grynodeb inni o'r hyn rydych chi'n bwriadu'i wneud, gan gynnwys pwy, ble a pha bryd. Ai prosiect wyneb yn wyneb, prosiect digidol, ynteu brosiect sy'n cyfuno'r ddau ddull yw hwn? *(tua 250 gair)*

## Eich prosiect - yr amserlen a'r gyllideb

- **Amserlen y prosiect**
  Uwchlwythwch ddogfen (fformat Word neu pdf) gyda thabl yn rhestru prif gyfnodau a thasgau'r prosiect, o'r dyddiad dechrau ymlaen. Gallwch chi ddefnyddio'r templed opsiynol hwn os hoffech chi. **Four Nations International Fund | Creative Scotland**
- **Y swm y gwneir cais amdano (£)**
  Rhowch wybod inni beth yw cyfanswm y swm rydych chi'n gwneud cais amdano (lleiafswm £1000, uchafswm £7,500), ond heb gynnwys unrhyw gostau hygyrchedd y gallwch chi fod yn gwneud cais amdanyn nhw hefyd.
- **Costau hygyrchedd* (£)**
  Ydych chi hefyd yn gwneud cais am unrhyw gostau hygyrchedd? Nodwch gyfanswm y costau hygyrchedd rydych chi'n gwneud cais amdanyn nhw.

* Costau nad ydyn nhw'n rhai artistig yw **costau hygyrchedd**, gyda'r nod o gael gwared ar bethau sy'n eich rhwystro chi rhag cymryd rhan, neu sy'n rhwystro pobl rydych chi'n gweithio gyda nhw neu'n eu cyflogi rhag cymryd rhan, neu sy'n rhwystro cyfranogwyr neu gynulleidfaoedd rhag ymwneud â'ch prosiect neu'ch gweithgaredd.

**Nid yw'r costau hyn yn cyfrif tuag at y cyfanswm rydych chi'n gofyn amdano wrth gyfrifo pa fand o arian rydych chi'n gwneud cais amdano.** Mae mwy o wybodaeth am gostau hygyrchedd yn y Cwestiynau Cyffredin ar gyfer y gronfa hon.

## Eich prosiect - amserlen a chyllideb - incwm

**Tabl incwm cyllideb.**

Cwblhewch y tabl hwn os ydych wedi cadarnhau unrhyw gyllid ychwanegol gan bartneriaid neu ffynonellau eraill.

Sylwch nad yw hyn yn ofynol.

## Eich prosiect - amserlen a chyllideb - gwariant

**Manylion y costau**
Cwblhewch y tabl cyllideb ar-lein gan ddefnyddio'r categorïau canlynol (pan fydd hynny'n berthnasol) o'r gwymplen:

- Costau artistic / creadigol (gan gynnwys holl safonau'r diwydiant y cyfeirir atyn nhw)
- Costau datblygiad proffesiynol / sefydliadol
- Costau offer / asedau
- Costau marchnata / datblygu cynulleidfa
- Costau gorbenion
- Costau mynediad y prosiect
- Costau eraill

*Darllenwch yr adran am y 'Costau na allwch chi eu cynnwys' ar dudalen* **5**.

Sylwch fod y categorïau cyllideb yn dilyn categorïau safonol a ddefnyddir ym mhob un o ffurflenni ar-lein Creative Scotland. Ar gyfer y gronfa hon mae'n bosibl y byddwch yn defnyddio'r categori **'costau eraill'** yn bennaf ar gyfer gwariant ar weithgareddau fel teithio, llety, fisas, cynhaliaeth, costau cydweithio digidol, yswiriant, cyfieithu, llogi stiwdio/lleoliad, ac ati. Anwybyddwch y costau sy'n cael eu nodi fel 'costau mynediad personol' - gall y rhain fod yn gostau personol a chostau mynediad prosiect. Gallwch roi mwy o fanylion am y costau hyn o fewn dogfen amserlen y prosiect.

## Eich prosiect chi - arloesi a'r angen

Ym mha ffordd y mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi cynnig ar rywbeth newydd a/neu yn ymateb i'r anghenion neu'r heriau presennol? *(tua 200 gair)*

Darllenwch y meini prawf ar gyfer asesu wrth ymateb i'r cwestiwn hwn, i gael syniadau ynghylch beth ddylech chi ei gynnwys.

## Eich partneriaeth

- Wrth ateb y cwestiynau hyn, darllenwch y meini prawf ar gyfer asesu i gael syniad o'r hyn y bydd yr aseswyr yn chwilio amdano yn yr adran hon.
- Pam rydych chi a'ch partneriaid yn cydweithio? *(tua 250 gair)*
- Rhowch wybod inni pam mae'r prosiect hwn yn bwysig i bob un o'r partneriaid sy'n rhan ohono y mae pob un ohonoch yn eu gweld a allai ddeillio o'r prosiect hwn. *(tua 250 gair)*

## Angen cymorth?

Creative Scotland sy'n rheoli proses ymgeisio'r gronfa hon ar ran cynghorau celfyddydau'r pedair cenedl. Rydyn ni yma i'ch helpu drwy'r broses. Cyn paratoi cais, os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau cyffredinol am y broses ymgeisio, y canllawiau neu'r ffurflen gais, gan gynnwys unrhyw ymholiadau technegol am ein proses ymgeisio ar-lein, oll trwy gyfrwng y Gymraeg, mae croeso ichi gysylltu â thîm Celfyddydau Rhyngwladol Cymru i drafod unrhyw syniadau neu gwestiynau.

Fe allwch chi wneud hyn drwy e-bost, drwy ein gwefan, neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

| | |
|---|---|
| **Ffôn:** | **+44(0) 2920 441 300** |
| **E-bost:** | **info@wai.org.uk** |
| **Gwefan:** | Llenwch ffurflen **ar ein gwefan** |
| **Twitter:** | Anfonwch neges aton ni **@WAIcymruWales** |

# Oes angen cefnogaeth ychwanegol arnoch chi i wneud cais?

Mae Creative Scotland eisiau sicrhau bod ein prosesau ymgeisio yn glir ac yn hygyrch i bawb.

**Mae gennym nifer o ffyrdd y gallwn eich cefnogi i wneud eich cais:**

- Gallwn gynnig arweiniad i ymgeiswyr ar y broses o wneud cais
- Mae cymorth mynediad ar gael i ymgeiswyr B/byddar ac Anabl, wedi'i deilwra i geisiadau unigol. Mae cymorth yn cynnwys Dehonglwyr Iaith Arwyddion ar gyfer cyfarfodydd a chymorth ysgrifennu i ymgeiswyr â dyslecsia.
- Mae gwybodaeth ar gael mewn fformatau amgen (gan gynnwys print bras, Braille, Hawdd ei Ddarllen, fersiwn sain ac ieithoedd eraill fel Gaeleg a BSL)
- Gallwn dderbyn ceisiadau a deunyddiau ategol a ysgrifennwyd yn Saesneg, Gaeleg neu Sgoteg
- Rydym yn cynnig teithiau fideo o'n ffurflenni cais ar-lein
- Mae cymorth un-i-un ychwanegol ar gael i ymgeiswyr sydd â gofynion mynediad

**Os ydych angen cefnogaeth,** gwybodaeth bellach neu os oes gennych unrhyw ymholiadau cyffredinol am y gronfa a sut i wneud cais, cysylltwch â'n **Gwasanaeth Ymholiadau** a fydd yn gallu eich cynghori neu a fydd yn eich rhoi mewn cysylltiad ag un o'n swyddogion.

# Cysylltu â'n gwasanaeth ymholiadau

Os oes angen cymorth arnoch, am gael gwybod a ydych chi a/neu eich prosiect yn gymwys, neu os hoffech drafod cwestiynau eraill am y gronfa hon, cysylltwch â'n Gwasanaeth Ymholiadau.

**E-bost:** **enquiries@creativescotland.com**

**Gwe:** Llenwch ffurflen **ar ein gwefan**

Ein nod yw ymateb i bob ymholiad cyn gynted â phosibl, ac yn bendant o fewn 10 diwrnod gwaith. Os yw eich ymholiad yn un brys, rhowch wybod i ni a byddwn yn dod yn ôl atoch cyn gynted ag y gallwn. Os ydych am siarad â rhywun, rhowch eich rhif i ni a byddwn yn trefnu amser addas i aelod o'r tîm eich ffonio'n ôl.

## Diogelu Data

Mae Creative Scotland angen rhywfaint o wybodaeth bersonol amdanoch chi/eich sefydliad er mwyn ystyried eich cais am gyllid. Heb y wybodaeth hon ni fyddwn yn gallu prosesu eich cais.

Os hoffech weld dadansoddiad o'r wybodaeth bersonol sydd ei hangen arnom, pam fod ei hangen, beth rydym yn ei wneud â'r wybodaeth honno a pha mor hir y byddwn yn ei chadw, cyfeiriwch at ein Hysbysiad Preifatrwydd sydd w^r gael ar-lein: **www.creativescotland.com/privacy-policy.**

Gall Creative Scotland rannu eich gwybodaeth bersonol â phartneriaid trydydd parti i gydymffurfio â'r gyfraith a/neu er ein buddiannau cyfreithlon a/neu'r partneriaid trydydd parti dan sylw.

Os yw'r wybodaeth bersonol rydych wedi rhoi i Creative Scotland yn perthyn i unigolyn/unigolion eraill, cyfeiriwch at ein Hywybysaid Preifatrwydd. Sicrhewch eich bod yn rhannu'r Datganiad Preifatrwydd hwn a'r Hysbysiad Preifatrwydd Creative Scotland gyda'r unigolyn/unigolion priodol.

Mae gennych rai hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol y mae Creative Scotland yn ei chadw amdanoch o dan gyfraith diogelu data. Mae gwybodaeth am sut i ymarfer yr hawliau hyn wedi'i chynnwys yn ein Hysbysiad Preifatrwydd neu gallwch gysylltu â'n **Swyddog Diogelu Data.**

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch sut rydym wedi prosesu eich gwybodaeth bersonol, dylech gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data yn y lle cyntaf, gan y byddem yn croesawu'r cyfle i weithio gyda chi i ddatrys unrhyw gŵyn. Os ydych dal yn anfodlon, gallwch gyflwyno cwyn I **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.**

## Gwneud cwyn

Fel sefydliad, byddwn wastad yn gwrando ar unrhyw bryderon sydd gennych chi ac yn ymateb i'r rheini. Os hoffech chi wneud cwyn naill ai am y gwasanaeth rydych chi wedi'i gael gan Creative Scotland neu am y ffordd rydyn ni wedi trin eich cais, mae gennyn ni broses y gallwch chi ei defnyddio. Sylwch nad oes gan Creative Scotland broses apelio, ac am y rheswm hwn, nid oes modd inni dderbyn cwynion sy'n ymwneud yn unig â'r penderfyniad rydyn ni wedi'i wneud, yn hytrach nag â sut rydyn ni wedi'i wneud. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r adran Cwynion ar ein gwefan:

**www.creativescotland.com/resources/our-publications/policies/complaints-handling**

## Rhyddid Gwybodaeth

Mae Creative Scotland wedi ymrwymo i fod mor agored â phosibl. Rydyn ni'n credu bod gan y cyhoedd hawl i wybod sut y byddwn ni'n gwario cyllid cyhoeddus a sut y byddwn ni'n gwneud ein penderfyniadau ariannu. Mae manylion am sut y byddwn yn trin materion Rhyddid Gwybodaeth i'w gweld ar ein gwefan fan hyn: **www.creativescotland.com/foi**. Rydyn ni wedi ein rhestru fel awdurdod cyhoeddus o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (Yr Alban) 2002. Yn ôl y gyfraith, efallai y bydd yn rhaid inni ddarparu eich dogfennau cais a gwybodaeth am ein hasesiad i unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n gofyn am eu gweld o dan Ddeddf Rhyddid

Gwybodaeth (Yr Alban) 2002. Efallai na fyddwn ni'n rhyddhau'r rhannau hynny o'r dogfennau pan fydd un neu ragor o'r eithriadau o dan y Ddeddf yn berthnasol. Gweler y wefan Ryddid Gwybodaeth yn **www.itspublicknowledge.info** i gael gwybodaeth am y Ddeddf yn gyffredinol a'r eithriadau. Ni fyddwn ni'n rhyddhau unrhyw wybodaeth am geisiadau yn ystod y cyfnod asesu, gan y gallai hyn ymyrryd â'r broses o wneud penderfyniadau.

## Rheoli Cymorthdaliadau

Mae Rheoli Cymorthdaliadau yn golygu defnyddio arian cyhoeddus i roi cymorth ariannol (cymorthdaliadau) i sefydliadau. Gadawodd y DU yr UE ar 31 Rhagfyr 2020, ac fel corff cyhoeddus, rhaid i Creative Scotland nawr gydymffurfio â Chanllaw Cryno Llywodraeth y DU ar gyfer Rhoi Cymorthdaliadau o 1 Ionawr 2021, a'r wybodaeth dechnegol sy'n cyd-fynd. Mae canllawiau presennol Llywodraeth yr Alban ynghylch y rheolau hyn yn datgan bod egwyddorion Cymorth Gwladwriaethol yr UE, a oedd yn berthnasol cyn 31 Rhagfyr 2020, yn dal yn berthnasol. Ar sail y canllawiau hyn, ystyrir bod y grantiau a roddir yn cyfateb i'r rheini a roddwyd o dan Fframwaith Dros Dro 051/20 ar gyfer Cymorth Gwladwriaethol fel rhan o'r ymatebion i COVID-19, gan nodi bod cynllun yr UE wedi'i ymestyn tan 31 Rhagfyr 2021 gyda chyfyngiadau diwygiedig. Os bydd gennych chi unrhyw bryderon y gallech chi weithredu'n groes i'r canllawiau hyn, cysylltwch â Thîm Cymorth Gwladwriaethol Llywodraeth yr Alban. Ni fydd Creative Scotland yn ymateb i unrhyw ymholiadau am y mater hwn.

Waverley Gate
2-4 Waterloo Place
Edinburgh EH1 3EG
Scotland UK

—

The Lighthouse
Mitchell Lane
Glasgow G1 3NU
Scotland UK

**www.creativescotland.com**
**enquiries@creativescotland.com**

Diweddarwyd: Awst 2023